LANCS35

Paratoi a defnyddio offer a pheiriannau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi a defnyddio offer a pheiriannau yn gywir ac yn ddiogel, gan roi sylw dyledus i gyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr, gofynion cyfreithiol a rheoliadol a chodau ymarfer.

Nid yw'r safon yn cynnwys cynnal a chadw'r offer a'r peiriannau sydd wedi ei gynnwys yn
CS25. Mae'n cynnwys y gwiriadau a'r gweithgareddau sydd angen eu gwneud fel mater o drefn o ddydd i ddydd cyn ac ar ôl eu defnyddio er mwyn bod yr offer a'r peiriannau'n parhau i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.

DS: nid yw'r safon hon yn cynnwys defnyddio tractorau neu gerbydau â phŵer.
Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau bydd angen i chi gael hyfforddiant priodol yn unol â deddfwriaeth bresennol, a meddu ar ddyfarniad perthnasol lle y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn ystyried unrhyw effaith ar yr amgylchedd naturiol.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio offer a pheiriannau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dewis yr offer neu'r peiriannau cywir ar gyfer y gwaith i gael ei wneud

P2 dewis a defnyddio'r dillad a'r cyfarpar diogelwch personol (PPE) cywir

P3 gwneud gwiriadau cyn dechrau ac addasu'r offer neu'r peiriannau cyn eu defnyddio yn unol â'r manylebau

P4 defnyddio offer neu beiriannau yn unol â'r manylebau a'r gofynion rheoliadol

P5 cydnabod yr angen am gyngor a chymorth a chymryd y camau priodol

P6 atal cemegau a sylweddau peryglus rhag gollwng a thrin gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â deddfwriaeth

P7 gwirio offer neu beiriannau ar ôl eu defnyddio a'u gadael mewn cyflwr addas i'w defnyddio yn y dyfodol

P8 storio offer neu beiriannau yn ddiogel

P9 gwneud yr holl waith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch berthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau'r cwmni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

G1 sut i ddewis yr offer neu'r peiriannau cywir ar gyfer y gwaith a gynlluniwyd

G2 pwysigrwydd cynnal gwiriadau a gweithgareddau fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod yr offer a'r peiriannau yn dal yn ddiogel ac yn gweithio'n dda, a chanlyniadau posibl peidio gwneud y rhain yn gywir

G3 sut i wirio'r offer neu'r peiriannau cyn eu defnyddio a'r mathau o weithgareddau cyn gweithredu sy'n ofynnol

G4 y gofynion cyfreithiol a rheoliadol sy'n llywodraethu'r defnydd o'r offer a'r peiriannau yn eich gweithle

G5 cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd ar gyfer gweithredu'r offer neu'r peiriannau yn eich gweithle

G6 y prif beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r offer neu'r peiriannau yn eich gweithle

G7 y mathau o broblemau a allai ddigwydd gyda'r offer neu'r peiriannau, sut i'w hadnabod, a'r camau i'w cymryd

G8 y mathau o ddillad amddiffynnol a'r cyfarpar diogelwch personol (PPE) a'r rhesymau pam y mae'n rhaid eu gwisgo

G9 sut i wirio'r offer neu'r peiriannau ar ôl eu defnyddio a'r gweithgareddau y gall fod eu hangen i sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i'w defnyddio yn y dyfodol

G10 cemegau a sylweddau peryglus a allai fod yn bresennol a ffyrdd o atal gollyngiadau

G11 sut i drin, cludo, storio a gwaredu gwastraff a chemegau a sylweddau peryglus yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

G11 eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch bresennol, codau ymarfer a pholisïau'r cwmni

G13 sut i leihau unrhyw effaith bosibl eich gwaith ar yr amgylchedd

Geirfa

Manylebau:

darluniau
atodlenni
datganiadau dull
Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
canllawiau'r cynhyrchydd
gofynion y cwsmer

Gallai'r cyfarwyddiadau fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gallai'r offer a'r peiriannau gynnwys:

offer a chyfarpar heb bŵer (er enghraifft offer llaw)
offer llaw â phŵer (er enghraifft tocwyr, torwyr perthi, weldwyr mig, golchwyr pŵer)
offer pŵer wedi eu rheoli gan gerddwyr (er enghraifft torwyr gwair tro, naddwyr, rhwygwyr)
offer wedi eu gosod ar fainc (er enghraifft driliau piler, turnau)

Gallai'r gwiriadau a'r gweithgareddau gynnwys:

gwiriadau diogelwch
glanhau
iro/seimio
gwirio ac ychwanegu at hylifau
naddu
addasu
gwefru

Gallai'r cemegau a'r sylweddau gynnwys:

tanwydd
olew
hylifau
nwyon
llwch
aer wedi'i gywasgu

Gallai'r gwastraff gynnwys deunydd peryglus a deunydd nad yw'n beryglus

Cysylltiadau â SGC eraill

LANCS25 Cynnal a chadw ac atgyweirio offer a pheiriannau

Paratoi a defnyddio offer a pheiriannau

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2013
Indicative Review Date	Mawrth 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANCS35
Galwedigaethau perthnasol	Milfeddyg para-broffesiynol
Cyfres/Set	Gweithgareddau Milfeddygol Para-broffesiynol; Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol; Cynhyrchu Da Byw
Geiriau Allweddol	torrwr gwair; torrwr perthi; tociwr; dosbarthwr gwrtaith; naddwr